YR YSTWYLL 6

DEUTERONOMIUM 30:15-20; SALM 119:1-8;
1 CORINTHIAID 3:1-9; MATHEW 5:21-37

● **Gweddi agoriadol**
Dduw Dad,
yma mae dy blant yn cyfarfod
gyda'i gilydd a chyda thi.
Bendithia'r amser yma gyda'n gilydd,
ein haddoli,
ein gweddi a'n trafod.
Bendithia yr wythnos newydd,
pob heddiw
ac yfory
a phob cyfle.

● **Moliant**
Dduw gras,
dim ond trwy dy gariad
y gallwn wybod
ein bod yn gadwedig,
Fugail tyner, nad wyt byth yn gollwng gafael arnom.
Wedi'n harwain gan dy Ysbryd,
down i'th gorlan
ac aros gyda thi am byth.

Dduw grym,
trwy dy rym di yn unig
y gallwn ddilyn dy orchymyn;
heb dy gymorth baglu wnawn ni.

Ond rwyt ti yn rasol;
mae dy law yno i'n dal
a cherddwn gyda thi am byth.

● **Cyffes**

Os ydym yma heddiw
a'n calonnau heb fod yn dawel
achos bod dicter yn ddwfn ynom,
maddau i ni.
Os ydym yma heddiw
yn gwybod bod geiriau ddefnyddion ni
wedi achosi i rywun faglu,
maddau i ni.
Atgoffa ni o'th gariad,
sy'n clymu calonnau ynghyd mewn undod,
sy'n iacháu perthynas,
sy'n rhoi bri ar dy enw.
Maddau i ni,
  adnewydda ni,
    glanha ni,
er mwyn i'n calonnau orlifo ynot
a chyffwrdd ein byd â'th ras.

● Diolch

Syllwn ar y byd
yr ydym yn byw ynddo
a gweld
cymaint yw dy ddarpariaeth.
Hadau wedi'u gwasgaru,
mewn peryg ar y llawr,
yn egino,
yn blodeuo a dwyn ffrwyth,
wedi'u meithrin gan wres
pelydrau tyner yr haul
a'r glaw ysgafn.
A'th air di,
wedi'i hau ym mhridd cyfoethog ein calon,
yn egino,
yn blodeuo a dwyn ffrwyth,
wedi'i feithrin gan wres dy Ysbryd
a'r dŵr bywiol.
Diolch am fynegi dy gariad,
ac am ffrwythlondeb!